O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 675 (Cy. 98)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn gymwys yng Nghymru.

Mae adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau Cymreig i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Yn y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol wedi eu heithrio o'r diffiniad o awdurdodau Cymreig.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer cyfnod y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer amser cyhoeddi'r strategaethau tlodi plant.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y dull y mae'n rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi strategaeth tlodi plant.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer y dyddiadau pan fydd rhaid cwblhau adolygiad o strategaeth tlodi plant a gyhoeddir gan awdurdod Cymreig. Mae rheoliad 6 hefyd yn darparu bod rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad a rhaid arddangos yr adroddiad o'r adolygiad ar wefan yr awdurdod Cymreig.

Mae rheoliad 7 yn darparu i awdurdod Cymreig gynnal ymgynghoriad cyn i strategaeth tlodi plant gael ei chyhoeddi.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 675 (Cy. 98)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 5 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol—

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(a) nid yw "yr awdurdodau Cymreig" ("*the Welsh authorities*") yn cynnwys Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn;

(b) ystyr "strategaeth tlodi plant" ("*child poverty strategy*") yw strategaeth fel a nodir yn adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

(**1**) 2010 mccc 1.

**Cyfnod y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn**

**3.—**(1) Rhaid i'r strategaeth tlodi plant gyntaf fod mewn perthynas â'r cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2014.

(2) Rhaid i'r strategaethau sy'n dilyn fod mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn pan fo cyfnod y strategaeth flaenorol yn dod i ben.

**Amseriad cyhoeddi'r strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn**

**4.—**(1) Mae'r strategaeth tlodi plant gyntaf i gael ei chyhoeddi ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

(2) Rhaid i'r strategaethau sy'n dilyn gael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill, neu cyn hynny, yn y flwyddyn pan fo cyfnod y strategaeth ar gyfer y strategaeth honno'n cychwyn yn unol â rheoliad 3(2).

**Dull cyhoeddi strategaeth tlodi plant**

**5.—**(1) Rhaid i awdurdod Cymreig gyhoeddi strategaeth drwy ei rhoi ar ei wefan ar y dyddiad y cyhoeddir y strategaeth.

(2) Rhaid i awdurdod Cymreig hefyd drefnu bod y strategaeth ar gael i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd—

(i) yn swyddfeydd yr awdurdod; a

(ii) mewn unrhyw fan priodol arall.

**Adolygiad o'r strategaeth tlodi plant**

**6.—**(1) Rhaid cwblhau adolygiad o'r strategaeth gyntaf a ymgymerir gan awdurdod Cymreig erbyn 31 Mawrth 2014.

(2) Mae pob strategaeth sy'n dilyn i'w hadolygu bob 3 blynedd wedi hyn.

(3) Rhaid i'r awdurdod Cymreig gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad drwy ei roi ar ei wefan.

**Gofynion ymgynghori**

**7.** Rhaid i awdurdod Cymreig, cyn cyhoeddi strategaeth, ymgynghori â Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd, yn nhyb yr awdurdod Cymreig, yn briodol.

*Huw Lewis*

Y Dirprwy Weinidog dros Blant, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2011